# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 11 Mehefin 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pa gamau gymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i bapur gwyn 2003 Llywodraeth y DU ar Ddyfodol Trafnidiaeth Awyr. (WAQ56066)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

O fewn ein cyfrifoldebau datganoledig, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu ystod o fentrau yn unol â Phapur Gwyn Llywodraeth y DU yn 2003. Mae'r rhain yn cynnwys ailagor rheilffordd Bro Morgannwg i deithwyr, gweithredu gwasanaeth awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn a chymorth i baratoi Prif Gynllun Maes Awyr Caerdydd. Rydym yn parhau i weithio i helpu i ddatblygu Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys ystod o welliannau mynediad ar y ddaear fel y nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer datblygu ffordd osgoi'r Drenewydd. (WAQ56067)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

Rwy'n bwriadu cyhoeddi'r dewis opsiwn yn ddiweddarach eleni.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leihau nifer y damweiniau ffordd sy'n ymwneud â beicwyr modur yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ56068)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

Mae mesurau i wella diogelwch gyrwyr beic modur yn cynnwys cyfuniad o beirianneg, gorfodi, addysg a hyfforddiant. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu drwy'r fenter BikeSafe, gyda'r awdurdodau lleol a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) i wella diogelwch ar y ffyrdd i yrwyr beic modur. Yn ogystal, mae terfynau cyflymder yn cael eu hadolygu yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009.